

# Y Bil Cwricwlwm ac Aseu (Cymru) Crynodeb o'r Bil

Awst 2020



Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:  
**[www.senedd.cymru/ymchwil](http://www.senedd.cymru/ymchwil)**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Senedd Cymru**  
**Tŷ Hywel**  
**Bae Caerdydd**  
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6293**  
E-bost: **[michael.dauncey@Senedd.Cymru](mailto:michael.dauncey@Senedd.Cymru)**  
Twitter: **[@SeneddYmchwil](https://twitter.com/SeneddYmchwil)**  
Blog: **[SeneddYmchwil.blog](http://SeneddYmchwil.blog)**

© **Hawlfraint Comisiwn Senedd Cymru 2020**

Ceir atgynhychu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhychu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Senedd Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

# Y Bil Cwricwlwm ac Aseu (Cymru) Crynodeb o'r Bil

Awst 2020

---

**Awdur:**  
Michael Dauncey



# Cynnwys

<b>1. Cefndir a chyd-destun polisi.....</b>	<b>1</b>
1.1. Disodli trefniadau cwricwlwm ac asesu 'nad ydynt bellach yn diwallu anghenion plant a phobl ifanc' .....	1
1.2. Datblygu'r Cwricwlwm newydd i Gymru .....	2
<b>2. Diben y Bil .....</b>	<b>3</b>
<b>3. Strwythur y Bil .....</b>	<b>4</b>
<b>4. Trefniadaeth y Cwricwlwm i Gymru .....</b>	<b>5</b>
<b>5. Yr elfennau gorfodol.....</b>	<b>7</b>
5.1. Cymraeg a Saesneg .....	7
5.2. Addysg cydberthynas a rhywioldeb.....	8
5.3. Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg .....	9
5.3.a Y trefniadau presennol .....	9
5.3.b Y cwmpas ehangach o ran Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg. ....	10
5.3.c Meysydd llafur cytunedig a meysydd llafur enwadol, a'r disgwyliadau ar gyfer gwahanol fathau o ysgolion o dan y Bil .....	11
5.3.d Ymgynghoriad diweddar .....	13
<b>6. Cwricwla lleol, ar lefel ysgol, o fewn fframwaith cenedlaethol.....</b>	<b>13</b>

---

6.1. Lleoliadau meithrin a gyllidir ond nas cynhelir .....	14
6.2. Eithriadau .....	15
<b>7. Addysg heblaw yn yr ysgol.....</b>	<b>15</b>
<b>8. Chweched dosbarth mewn ysgolion .....</b>	<b>16</b>
<b>9. Cynnydd ac asesu .....</b>	<b>17</b>
<b>10. Pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth.....</b>	<b>18</b>
10.1. Rheoliadau.....	18
10.2. Cyfarwyddiadau, penderfyniadau a chyhoeddi codau a chanllawiau .....	18
<b>11. Trafod dewisiadau eraill a goblygiadau ariannol .....</b>	<b>19</b>
11.1. Dewisiadau a ystyriwyd .....	19
11.2. Costau cyffredinol .....	20
11.2.a Costau suddedig .....	20
11.2.b Costau nad ydynt wedi'u cyfrif ac effaith COVID-19.....	21
11.2.c Rhagdybiaethau allweddol.....	22
11.2.d Crynodeb o'r costau .....	23
<b>12. Asesiadau effaith .....</b>	<b>24</b>
<b>13. Adolygiad ôl-weithredu .....</b>	<b>24</b>

---

**14. Gwaith craffu yn y Senedd .....24**

14.1. Cyfnod 1 .....25

14.2. Cyfnod 2 a thu hwnt.....25

**15. Atodiad A: Dogfennau statudol allweddol a gyhoeddwyd o dan y Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) .....26**

**16. Atodiad B: Rhestr o ddatganiadau 'Yr Hyn sy'n Bwysig' ym mhob Maes Dysgu a Phrofiad) .....34**

# 1. Cefndir a chyd-destun polisi

Ar yr amod ei fod yn pasio'n llwyddiannus drwy'r Senedd, bydd y **Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru)** ['y Bil' o hyn ymlaen] yn darparu'r **sylyfaen statudol ar gyfer gwaith Llywodraeth Cymru i ddiwygio'r cwricwlwm** ar gyfer plant 3 i 16 oed. Bydd yn disodli'r cwricwlwm cenedlaethol presennol yng Nghymru, a sefydlwyd ym 1988 ar sail Cymru a Lloegr, gyda Chwricwlwm newydd i Gymru. Er bod datganoli wedi galluogi addasu'r cwricwlwm yng Nghymru, yn fwyaf arbennig yn 2010 gyda chyflwyno'r Cyfnod Sylfaen yn lle Cyfnod Allweddol 1, mae'r Bil hwn yn nodi'r tro cyntaf y llunnir cwricwlwm penodol i Gymru.

Bydd yr union ddyddiad y daw'r cwricwlwm newydd i rym yn ddarostyngedig i Orchymyn a wneir o dan y Bil. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru **yn bwriadu cyflwyno'r cwricwlwm newydd o fis Medi 2022**, yn yr ysgol gynradd ac ym Mlwyddyn 7 (blwyddyn gyntaf yr ysgol uwchradd fel arfer) i ddechrau, cyn ei ymestyn i grwpiau blwyddyn dilynol wrth i'r disgyblion hyn symud ymlaen drwy'r ysgol, nes iddynt gyrraedd Blwyddyn 11 yn 2026/27. Mae'r Gweinidog Addysg, Kirsty Williams AS, wedi dweud nad yw'r amserlen hon wedi newid er gwaethaf pandemig COVID-19.

Mae adrannau 1.1 a 1.2 y papur briffio hwn yn egluro rhywfaint o gyd-destun y Bil o ran gwaith diwygio arfaethedig y cwricwlwm.

## 1.1. Disodli trefniadau cwricwlwm ac asesu 'nad ydynt bellach yn diwallu anghenion plant a phobl ifanc'

Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio gyda'r sector addysg i gynllunio a datblygu cwricwlwm newydd ers i'r adolygiad a gomisiynodd gan yr Athro Graham Donaldson, **Dyfodol Llwyddiannus (2015)** ganfod: Gyda'i gilydd, nid yw'r cwricwlwm cenedlaethol a'r trefniadau asesu presennol **yn cwrdd bellach ag anghenion** plant a phobl ifanc Cymru. Mae'r **ddadl o blaid newid sylfaenol yn un rymus**. [fy mhwyslais i]

Derbyniodd y Gweinidog ar y pryd, Huw Lewis, yr adroddiad a'r argymhellion yn llawn, **gan nodi ym mis Mawrth 2015**:

**nad rhyw chwarae â hen gwricwlwm cenedlaethol 1988** yw hyn. Mae'n nodi ein bod yn cael gwared ar gwricwlwm cenedlaethol 1988 ac yn **ail-greu** cwricwlwm hollol newydd **o'r gwaelod i fyny** gydag **athroniaeth wahanol** yn sail iddo. [fy mhwyslais i]

Mae cyflwyno 'cwricwlwm trawsnewidiol' yn rhan allweddol o gynllun gweithredu

Llywodraeth Cymru, **Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl**, sy'n nodi ei diwygiadau addysg hyd at 2021. Dywedir yn y **Memorandwm Esboniadol** (paragraff 3.9) y "Dylai'r Cwricwlwm i Gymru fod wrth wraidd ymdrechion athrawon ac ysgolion ac ymdrechion cenedlaethol i geisio codi safonau i bawb, mynd i'r afael â'r bwlch cyrhaeddiad a sicrhau system addysg sy'n destun balchder cenedlaethol, ac sy'n ennyn ffydd y cyhoedd."

Gan hynny, mae **Llywodraeth Cymru yn gweld diwygio'r cwricwlwm fel cyfrwng ar gyfer codi safonau addysgol**, gan gynnwys gwella **canlyniadau PISA Cymru**.

## 1.2. Datblygu'r Cwricwlwm newydd i Gymru

Bydd y Cwricwlwm newydd i Gymru yn cwmpasu ymagwedd wahanol sydd **wedi ei gyrru gan ddibenion yn hytrach na chynnwys**, gyda mwy o hyblygrwydd i ysgolion ddarparu cwricwlwm lleol yn unol ag anghenion eu disgyblion. Bydd fframwaith cenedlaethol o hyd ond bydd y **cyfrifoldeb/rhyddid i ysgolion gynllunio a mabwysiadu cwricwlwm lleol**, yn unol ag anghenion eu disgyblion.

Bydd llai o ragnodi'r hyn y mae'n rhaid i ysgolion ei ddysgu, heb raglenni astudio, a bydd cynllunio'r cwricwlwm yn seiliedig ar 'Feysydd Dysgu a Phrofiad', yn hytrach na phynciau. Bwriad Llywodraeth Cymru yw y bydd y cwricwlwm newydd, fel yr hyrwyddir yn gadarn gan adolygiad yr Athro Donaldson, yn cyflawni'r hyn sydd ei angen ar bobl ifanc o'u haddysg gan ddefnyddio **ymagwedd tair rhan, sef gwybodaeth, sgiliau a phrofiad**. Esbonnir yr egwyddorion trefnu ar gyfer y cwricwlwm newydd, a nodir o dan y Bil, yn ddiweddarach yn y papur briffio hwn yn adran 4.

Cyhoeddwyd y **Cwricwlwm newydd i Gymru** ym mis Ionawr 2020 fel canllawiau statudol dros dro. Yn ddarostyngedig i basio'r Bil yn llwyddiannus, bydd hwn yn cael ei ailgyhoeddi ar ffurf cod sy'n nodi 'Yr Hyn sy'n Bwysig' ym mhob Maes Dysgu a Phrofiad (o dan adran 6 o'r Bil) a chanllawiau statudol eraill (adran 66).

Mae erthyglau blog Ymchwil y Senedd yn **Ionawr 2020, Mai 2019, Mai 2016** a **Mawrth 2015** yn rhoi rhagor o gefndir datblygu'r Cwricwlwm i Gymru yn ystod y blynyddoedd diwethaf.



## 2. Diben y Bil

Yn y Memorandwm Esboniadol (paragraff 1.2), mae Llywodraeth Cymru wedi nodi dibenion allweddol y Bil fel a ganlyn:

- **Cynllunio, mabwysiadu a gweithredu cwricwlwm i blant 3-16 oed** mewn ysgolion a gynhelir<sup>1</sup>, ysgolion meithrin a gynhelir ac mewn lleoliadau meithrin a gyllidir ond nas cynhelir<sup>2</sup> a darparu cwricwlwm mewn Unedau Cyfeirio Disgyblion ac mewn lleoliadau eraill a sicrhawyd gan awdurdod lleol yng Nghymru sy'n darparu addysg heblaw yn yr ysgol.
- **Y gofynion cyffredinol y mae rhaid i gwricwlwm eu bodloni**, gan gynnwys sgiliau trawsgwricwlaidd (llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol), meysydd dysgu a phrofiad a'r elfennau gorfodol (Cymraeg, Saesneg, Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, ac addysg cydberthynas a rhywioldeb).
- Cyhoeddi **Cod Yr Hyn sy'n Bwysig** gan Weinidogion Cymru yn nodi'r cysyniadau allweddol ym mhob maes dysgu a phrofiad ac yn disgrifio ehangder y dysgu y mae rhaid ei gwmpasu.
- Cyhoeddi **cod statudol** gan Weinidogion Cymru yn **darparu fframwaith ar gyfer cynnydd** yn y cwricwlwm newydd.
- Cyhoeddi **cod** gan Weinidogion Cymru yn nodi'r dysgu craidd ar gyfer **addysg cydberthynas a rhywioldeb**.
- Rhoi **trefniadau asesu** ar waith i gefnogi pob dysgwr i wneud **cynnydd**.
- Sefydlu **continwrm dysgu 3-16 oed** a thrwy gael gwared ar y termau cyfnodau allweddol 2, 3 a 4, a'r cyfnod sylfaen mewn deddfwriaeth.
- **Datgymhwyso'r gofyniad i addysgu Saesneg hyd at 7 oed i helpu i gefnogi a chynnal rhuglder yn y Gymraeg** [mae'r Bil yn gwneud Cymraeg a Saesneg yn orfodol mewn ysgolion a lleoliadau meithrin a gyllidir ond nas cynhelir o 3 oed ymlaen, gyda phenaethiaid a chyrrff llywodraethu yn gallu optio allan o'r gofyniad i ddysgu Saesneg hyd at 7 oed (diwedd Blwyddyn 2) er mwyn trwytho'r dysgwyr yn llawn yn y Gymraeg].
- Pwerau i **Weinidogion Cymru roi canllawiau** i benaethiaid, cyrrff llywodraethu ac awdurdodau lleol ynghylch eu swyddogaethau.

Mae'r Bil hefyd yn nodi **eithriadau o ofynion y cwricwlwm** mewn perthynas â rhai disgyblion ac yn gwneud darpariaeth gyfyngedig ar gyfer **addysg ôl-orfodol**

---

1 Ysgol a ariennir gan yr awdurdod lleol yw ysgol a gynhelir, a'r awdurdod lleol sy'n gyfrifol amdani'n gyffredinol.

2 Lleoliadau preifat yw'r rhain sy'n cael arian cyhoeddus er mwyn cynnig darpariaeth addysg y blynyddoedd cynnar i blant rhwng 3 a 5 oed.

## mewn ysgolion a gynhelir.

Mae Pennod 3 o'r Memorandwm Esboniadol yn nodi pwrpas ac effaith arfaethedig Llywodraeth Cymru ar y ddeddfwriaeth.

## 3. Strwythur y Bil

Mae 7 Rhan i'r Bil, sy'n cynnwys 80 adran a 2 Atodlen.

- Mae **Rhan 1** (adrannau 1-8\_) yn nodi **cysyniadau sylfaenol a dogfennau allweddol** y Cwricwlwm newydd i Gymru.
- Mae **Rhan 2** yn cynnwys 4 Pennod a dyma ran sylweddol graidd y Bil.
  - Mae **Pennod 1** (adrannau 9-18) yn nodi darpariaethau ar gyfer **ysgolion i gynllunio a mabwysiadu eu cwricwlwm eu hunain**, yn ddarostyngedig i gysyniadau Rhan 1 a gofynion Pennod 2. Bydd lleoliadau meithrinfeydd a gyllidir ond nas cynhelir naill ai'n gallu mabwysiadu'r cwricwlwm a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y grŵp oedran hwn, neu gynllunio a mabwysiadu eu cwricwlwm eu hunain, yn ddarostyngedig i gysyniadau Rhan 1 a gofynion Pennod 2.
  - Mae **Pennod 2** (adrannau 19-27) yn nodi **gofynion y cwricwlwm** a gynlluniwyd ac a fabwysiadwyd gan ysgolion a lleoliadau meithrin a gyllidir ond nas cynhelir, ac mae'n cynnwys y disgresiwn i ddatgymhwyso statws gorfodol Saesneg hyd at 7 oed. Mae hefyd yn darparu ar gyfer elfen o ddewis rhwng 14 ac 16 oed, gyda Gweinidogion Cymru yn cael pwerau i wneud Rheoliadau yn nodi gofynion pellach ar gyfer dysgwyr ym Mlynnyddoedd 10 ac 11.
  - Mae **Pennod 3** (adrannau 28-38) yn cyfeirio at **weithredu'r cwricwlwm**, a sicrhau bod ysgolion a lleoliadau meithrin a gyllidir ond nas cynhelir yn cadw at ofynion y cwricwlwm sydd ym Mhennod 2. Mae hyn yn cynnwys pwerau i benaethiaid anghymwysu'r ddyletswydd i weithredu dewisiadau disgyblion ym Mlynnyddoedd 10 ac 11, er enghraifft os nad yw'r ddarpariaeth yn addas, yn rhesymol ymarferol neu os byddai'n arwain at wariant anghymesur.
  - Mae **Pennod 4** (adrannau 39-50) yn darparu ar gyfer **eithriadau** i ddyletswyddau gweithredu'r cwricwlwm. Mae'r rhain yn cynnwys rhai achosion, er enghraifft er mwyn cynnal gwaith datblygu ac arbrofion, a rhai disgyblion, fel y rhai ag Anghenion Dysgu Ychwanegol. Mae pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ynghylch eithriadau dros dro i rai dysgwyr.

- Mae **Rhan 3** (adrannau 51-57) yn nodi'r gofynion cwricwlwm mewn Unedau Cyfeirio Disgyblion a darpariaethau eraill **addysg heblaw yn yr ysgol**.
- Mae **Rhan 4** (adrannau 58-59) yn gwneud darpariaeth ar gyfer trefniadau **asesu** a **chynnydd** dysgwyr.
- Mae **Rhan 5** (adrannau 60-63) yn gwneud darpariaeth gyfyngedig ynghylch gofynion y cwricwlwm mewn **chweched dosbarth ysgolion**.
- Mae **Rhan 6** (adrannau 64-67) yn gwneud **darpariaeth atodol** ynghylch dyletswyddau cyffredinol Gweinidogion Cymru ac awdurdodau lleol i hwyluso'r rhai sy'n cyflwyno'r cwricwlwm i gyflawni swyddogaethau. Mae hefyd yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau ar arfer swyddogaethau o dan y ddeddfwriaeth.
- Mae **Rhan 7** (adrannau 68-80) yn gwneud **darpariaeth gyffredinol**, gan gynnwys pwerau i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth ganlyniadol a throsiannol, gweithdrefnau ar gyfer gwneud is-ddeddfwriaeth, mynegai o delerau diffiniedig a threfniadau ar gyfer pan ddaw'r ddeddfwriaeth i rym.
- Mae **Atodlen 1** yn gwneud darpariaeth ynghylch **Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg**.
- Mae **Atodlen 2** yn rhestru **mân ddiwygiadau canlyniadol a diddymiadau** a wnaed gan y Bil.
- Mae Atodiad A i'r papur briffio hwn yn cynnwys crynodeb o'r prif ddogfennau statudol y gellir eu cyhoeddi, neu y mae'n rhaid eu cyhoeddi, o dan y Bil.

## 4. Trefniadaeth y Cwricwlwm i Gymru

Mae'r Bil yn darparu ar gyfer **trefnu'r cwricwlwm newydd yn unol â'r hyn a argymhellir yn *Dyfodol Llwyddiannus* (adolygiad Donaldson)**; h.y. bod y cwricwlwm yn cael ei arwain gan ddibenion, wedi ei drefnu o gwmpas meysydd eang yn hytrach na phynciau cul, yn dysgu 'yr hyn sy'n bwysig', ac yn rhoi'r un flaenoriaeth i gymhwysedd digidol â blaenoriaethau llythrennedd a rhifedd sydd eisoes wedi eu sefydlu.

Mae Adran 2 y Bil yn gosod **pedwar diben** ar gyfer y cwricwlwm, sef galluogi disgyblion i ddatblygu:

- yn ddysgwyr galluog ac uchelgeisiol, sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes;
- yn gyfranwyr mentrus a chreadigol, sy'n barod i chwarae eu rhan lawn mewn bywyd a gwaith;

- yn ddinasyddion egwyddorol a gwybodus i Gymru a'r byd;
- yn unigolion iach a hyderus, sy'n barod i fyw bywydau boddhaus fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.

Mae Adran 3 yn sefydlu chwe **Maes Dysgu a Phrofiad**:

- Y celfyddydau mynegiannol;
- Iechyd a lles;
- Y dyniaethau;
- Ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu;
- Mathemateg a rhifedd;
- Gwyddoniaeth a thechnoleg.

Mae Adran 4 yn pennu **tri sgil trawsgwricwlaidd gorfodol**:

- Cymhwysedd Digidol;
- Llythrennedd;
- Rhifedd.

Bydd Gweinidogion Cymru yn gallu diwygio'r Meysydd Dysgu a Phrofiad a'r sgiliau trawsgwricwlaidd gorfodol drwy Reoliadau. Nid oes pŵer o'r fath i ddiwygio'r dibenion drwy is-ddeddfwriaeth, sy'n golygu y byddai angen deddfwriaeth sylfaenol ar gyfer hyn. Y rheswm am hyn yn ôl Llywodraeth Cymru oedd am fod y dibenion mor sylfaenol i ethos y cwricwlwm fel mai dim ond drwy ddeddfwriaeth sylfaenol y dylai unrhyw newid iddynt fod yn bosibl.

Nid oes manylion pellach ar wyneb y Bil ynghylch yr hyn a fydd yn cael ei ddysgu ym mhob Maes Dysgu a Phrofiad. Bydd hyn yn cael ei nodi mewn canllawiau statudol a gyhoeddir o dan y ddeddfwriaeth a **Chod yr Hyn sy'n Bwysig**, a fydd yn nodi cysyniadau allweddol ar gyfer pob Maes Dysgu a Phrofiad. Yn flaenorol, mae Llywodraeth Cymru wedi disgrifio'r rhain fel 'datganiadau o'r hyn sy'n bwysig' ac wedi eu cynnwys yn y **dogfennau cwricwlwm a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2020**. Mae rhestr o'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig wedi'i chynnwys yn Atodiad B (mae cyfanswm o 27 o'r rhain – rhwng tri a chwech ar gyfer pob Maes Dysgu a Phrofiad).

Yn unol ag adran 6 o'r Bil, mae'n rhaid i'r cwricwlwm a addysgir gwmpasu'r cysyniadau a nodir yn y Cod yr Hyn sy'n Bwysig. Bydd canllawiau statudol yn ehangu'r cysyniadau hyn ynghylch yr Hyn sy'n Bwysig a'r hyn y gellir/y dylid ei gwmpasu ym mhob Maes Dysgu a Phrofiad.

Cyfeiriwyd yn nogfennaeth y cwricwlwm a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2020 at **bedwar o 'sgiliau cyfannol'**, y dylid eu datblygu o fewn amrywiaeth eang o addysgu a dysgu, er mwyn ategu'r pedwar diben:

- Creadigrwydd ac arloesedd;
- Meddwl yn feirniadol a datrys problemau;
- Effeithiolrwydd personol;
- Cynllunio a threfnu.

## 5. Yr elfennau gorfodol

Mae Adran 3 yn ei gwneud yn ofynnol i **bedair elfen orfodol** gael eu haddysgu ym mhob Maes Dysgu a Phrofiad:

- **Cymraeg** (o dan un continwmm dysgu, yn wahanol i'r gwahaniaeth cyfredol rhwng Cymraeg iaith gyntaf a Chymraeg ail iaith);
- **Saesneg** (gall penaethiaid benderfynu ddatgymhwysu'r elfen orfodol hon, cyn Blwyddyn 3/7 oed (y Cyfnod Sylfaen cyfredol) lle gwneir hynny i ddatblygu neu gynnal lefelau rhuglder plant yn y Gymraeg);
- **Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb;**
- **Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg.**

Mae'n bwysig nodi bod yr elfennau Cymraeg a Saesneg y cyfeirir atynt yn y Bil yn ymwneud ag addysgu Cymraeg a Saesneg o ran yr hyn a elwir yn bynciau ar hyn o bryd, yn hytrach na chyfrwng iaith yr addysgu.

### 5.1. Cymraeg a Saesneg

Gweledigaeth **Cymraeg 2050** Llywodraeth Cymru yw y bydd miliwn o bobl yn siarad Cymraeg erbyn 2050. Mae cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg drwy'r system addysg yn rhan sylfaenol o'r strategaeth. Fel y nodir yn y Memorandwm Esboniadol (paragraff 3.137), gweledigaeth Llywodraeth Cymru yw:

gweddnawid y ffordd rydym yn addysgu'r Gymraeg i bob dysgwyr, er mwyn i o leiaf 70 y cant o'r dysgwyr hynny allu dweud erbyn 2050 eu bod yn gallu siarad Cymraeg pan fyddant yn gadael yr ysgol.

Nodir hefyd yn y Memorandwm (paragraff 3.138):

Er mwyn i hynny ddigwydd, mae angen cydnabod dysgu ac addysgu'r Gymraeg a rhoi gwerth arnynt fel rhan annatod o'r cwricwlwm i Gymru.

Mae'r Bil yn sefydlu **continwrm dysgu unigol o ddysgu Cymraeg ym mhob ysgol**, gan ddisodli'r gwahaniaeth cyfredol rhwng Cymraeg iaith gyntaf (a addysgir yn bennaf mewn ysgolion Cymraeg) a Chymraeg ail iaith (a addysgir yn bennaf mewn ysgolion cyfrwng Saesneg). Mae'r **gofynion ar bob ysgol i ddysgu Cymraeg yr un peth**, beth bynnag yw eu cyfrwng addysgu. Serch hynny, bydd dysgwyr ar wahanol bwyntiau ar yr un continwrm, cyferbyniaeth a fydd yn debygol o adlewyrchu cyfrwng yr ysgol maent yn ei mynychu.

Mae'r Bil **yn trin y Gymraeg a'r Saesneg yn wahanol**. Er y bydd Saesneg, fel y Gymraeg, yn orfodol o ddechrau'r cwricwlwm yn 3 oed, **bydd ysgolion yn gallu ddatgymhwyso'r gofyniad hwn hyd at 7 oed (diwedd Blwyddyn 2)** er mwyn datblygu sgiliau disgyblion yn y Gymraeg drwy drochi yn yr iaith. Er nad yw darpariaethau'r Bil yn ymwneud â chyfrwng yr addysgu, mae'n anochel y bydd dysgu Saesneg fel elfen yn golygu cyfrwng Saesneg, felly dyna mae'r model trochi yn y Gymraeg yn ceisio ei osgoi.

Fel y dywedir yn strategaeth *Cymraeg 2050* Llywodraeth Cymru:

Addysg drochi cyfrwng Cymraeg yw ein prif ddull ar gyfer sicrhau bod plant yn gallu datblygu eu sgiliau Cymraeg, ac ar gyfer creu siaradwyr newydd.

Wrth ymateb i farn bod statws gorfodol Saesneg yn ddiangen ac nad yw datblygu dwy iaith swyddogol Cymru yn digwydd yn yr un modd, dywedodd y Gweinidog Addysg, Kirsty Williams AS, yn y **Cyfarfod Llawn ar 1 Gorffennaf** (paragraff 614):

bydd y Bil hwn yn galluogi rhaglenni trochi Cymraeg i barhau, gan roi sylfaen gyfreithiol gadarn iddo a chryfhau ei sefyllfa fel elfen allweddol o gyrraedd ein dyheadau, fel dull gweithredu addysgeg sydd wedi ei brofi.

Fodd bynnag, dywedodd y Gweinidog fod Llywodraeth Cymru yn cefnogi addysg drochi yn y Gymraeg ac y bydd hi'n 'ceisio parhau i drafod ac i ymgysylltu ar y materion hyn' yn ystod gwaith craffu'r Senedd ar y Bil.

## 5.2. Addysg cydberthynas a rhywioldeb

Mae Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn faes yn y cwricwlwm newydd y gwnaeth Llywodraeth Cymru benderfyniadau yn ei gylch beth amser yn ôl.

Ar hyn o bryd, mae addysg rhyw yn rhan orfodol o'r cwricwlwm sylfaenol mewn ysgolion uwchradd, tra bod ysgolion cynradd yn cael cyfle i'w ddysgu, ond nid ydynt yn gorfod gwneud hynny. Mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi **cyfarwyddyd nad yw'n gyfrwymol** ar sut i gyflwyno addysg 'rhyw a

pherthnasoedd'.

Yn dilyn adolygiad y **Panel Arbenigol, dan gadeiryddiaeth yr Athro Emma Renold, cyhoeddodd y Gweinidog yn 2018** fod y **gofyniad cyfredol i addysgu addysg rhyw mewn ysgolion uwchradd yn cael ei ymestyn i ysgolion cynradd** ond y bydd hyn yn 'briodol i'w hoedran' ac o dan y ffocws diwygiedig ar 'Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb'. **Ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ym mis Chwefror 2019** ar ganllawiau drafft i ysgolion ar ddarparu Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb.

Drwy Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, bydd dysgwyr yn dysgu am fwy na rhyw mewn ystyr fiolegol, ond y cysyniad ehangach o rywioldeb a'r hyn sy'n berthynas iach (ac afiach). Mae adran 24 o'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb gael ei dysgu mewn ffordd sy'n **'briodol o ran eu datblygiad'** ar gyfer disgyblion a phlant.

Bydd Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn cael ei haddysgu ar draws y cwricwlwm cyfan ac fe'i disgrifir gan Lywodraeth Cymru fel "elfen bwysig o greu dull gweithredu ysgol gyfan o ran cynorthwyo iechyd corfforol, iechyd meddwl ac iechyd emosiynol a lles" (paragraff 3.49 y Memorandwm Esboniadol).

Bydd darparu Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn cael ei arwain gan **god statudol** y mae'n rhaid i Weinidogion Cymru ei gyhoeddi o dan adran 8 o'r Bil. Ni ystyrir bod cwricwlwm ysgol yn cwmpasu'r elfen orfodol o Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb oni bai ei fod yn unol â'r Cod statudol Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb. Bydd y cod yn destun craffu gan y Senedd (Adran 72).

Ar hyn o bryd, mae gan rieni hawl i dynnu eu plentyn allan o addysg rhyw nad yw'n rhan o bwnc cwricwlwm cenedlaethol. Nid yw'r Bil yn cynnwys yr **hawl i rieni dynnu eu plant allan** o addysg rhyw. **Ymgynghorodd** Llywodraeth Cymru yn ystod yr hydref yn 2019 ar oblygiadau dod â hawl rhieni i dynnu eu plant allan i ben, a hynny yng nghyd-destun 'sicrhau mynediad llawn i'r cwricwlwm'.

### 5.3. Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg

#### 5.3.a Y trefniadau presennol

---

Ar hyn o bryd, mae addysg grefyddol yn rhan orfodol o'r cwricwlwm sylfaenol. Nid yw hyn yn golygu bod yn rhaid i bob disgybl astudio ar gyfer cymhwyster addysg grefyddol, er enghraifft TGAU, ond mae'n rhaid iddynt gael cyfleoedd i gael addysg grefyddol. Ar hyn o bryd mae gan rieni hawl i dynnu eu plant allan o addysg

grefyddol.

Mae'n ofynnol i bob awdurdod lleol gynnal cynhadledd meysydd llafur cytunedig os bydd unrhyw grŵp cynrychioladol ar ei Gyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol yn gofyn iddo wneud hynny. Yna defnyddir y gynhadledd i benderfynu ar y maes llafur cytunedig o ran addysg grefyddol a gaiff eu haddysgu yn yr ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol hwnnw.

Mae'n **ofynnol i ysgolion a gynhelir nad oes iddynt gymeriad crefyddol addysgu addysg grefyddol yn unol â'r maes llafur cytunedig** a fabwysiadwyd ar gyfer yr ysgolion hynny neu eu disgyblion. Mae'r trefniadau presennol yn wahanol ar gyfer ysgolion â chymeriad crefyddol.

Yn niffyg unrhyw drefniadau amgen, **y drefn mewn ysgolion gwirfoddol a reolir<sup>3</sup> ag iddynt gymeriad crefyddol** yw i ddysgwyr gael addysg grefyddol yn unol â'r **maes llafur cytunedig**. Fodd bynnag, os bydd rhiant yn gofyn am addysg grefyddol yn unol â gweithred ymddiriedolaeth neu ddaliadau ffydd (h.y. addysg grefyddol enwadol), rhaid i'r ysgol ystyried a ddylid darparu addysg crefydd, gwerthoedd a moeseg enwadol. Nid oes rhaid i'r ysgol fodloni cais y rhiant os bydd y corff llywodraethu yn gytûn y byddai'n afresymol, oherwydd unrhyw amgylchiadau arbennig, i'r ysgol wneud hynny.

Yn niffyg unrhyw drefniadau amgen, **y drefn bresennol ar gyfer ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir<sup>4</sup> ag iddynt gymeriad crefyddol** yw i ddysgwyr gael **addysg grefyddol enwadol**. Fodd bynnag, os bydd rhiant yn gwneud cais am addysg grefyddol yn unol â'r maes llafur cytunedig, rhaid i'r ysgol ystyried a ddylid darparu addysg grefyddol yn unol â'r maes llafur cytunedig. Nid oes rhaid i'r ysgol fodloni cais y rhiant os bydd y corff llywodraethu yn gytûn y byddai'n afresymol, oherwydd unrhyw amgylchiadau arbennig, i'r ysgol wneud hynny.

### 5.3.b Y cwmpas ehangach o ran Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg.

---

Mae'r Bil yn sefydlu'r elfen **Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg**, gyda'r bwriad o gynnig maes ehangach a mwy cynhwysol nag addysg grefyddol draddodiadol. Bydd Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn orfodol i'r rhan fwyaf o ddisgyblion 3-16

3 Caiff ysgolion gwirfoddol a reolir eu rhedeg gan sefydliadau gwirfoddol (sef yr Eglwys Gatholig neu'r Eglwys yng Nghymru yn y wlad hon fel arfer) ond fe'u rheolir yn fanwl gan yr awdurdod lleol. Yr awdurdod lleol sy'n cyflogi'r staff ac yn gosod y meini prawf derbyn, ond mae tir ac adeiladau'r ysgol yn eiddo i elusen (yr eglwys yn aml) sy'n penodi rhai o aelodau'r corff llywodraethu.

4 Caiff ysgolion ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir eu rhedeg gan sefydliad gwirfoddol ac mae ganddynt fwy o ryddid o ran polisi a materion ariannol nag ysgolion gwirfoddol a reolir. Maent yn tueddu i fod yn ysgolion crefyddol neu ysgolion ffydd, sef ysgolion yr Eglwys Gatholig neu'r Eglwys yng Nghymru yn y wlad hon fel arfer. Y corff llywodraethu sy'n cyflogi'r staff ac yn gosod y meini prawf derbyn ac mae tir ac adeiladau'r ysgol yn eiddo i elusen fel arfer (yr eglwys yn aml).



oed ym Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau<sup>5</sup>. Mae'r Bil yn **diwygio'r diffiniad presennol o 'maes llafur cytunedig'** yng Nghymru (adran 375 o Ddeddf Addysg 1996 ar hyn o bryd) fel bod y maes llafur yn:

- a) adlewyrchu'r ffaith mai Cristnogol yn bennaf yw'r traddodiadau crefyddol ym Mhrydain Fawr, gan ystyried dysgeidiaeth ac arferion y prif grefyddau eraill a gynrychiolir ym Mhrydain Fawr, a
- b) adlewyrchu hefyd y ffaith y delir ystod o argyhoeddiadau athronyddol nad ydynt yn grefyddol ym Mhrydain Fawr.

**Ni fydd gan rieni yr hawl i atal eu plant rhag astudio** Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg. Nodir ym mharagraff 3.46 y Memorandwm Esboniadol:

Mae Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn faes astudio lle y mae dysgwyr yn defnyddio amryw o ddulliau disgyblaethol i ymdrin yn feirniadol ag **ystod eang o gysyniadau crefyddol ac anghrefyddol**. Y bwriad yw sicrhau bod **pob plentyn a pherson ifanc** yn cael cyfle i archwilio perthynas hanesyddol a chyfoes Cymru ag athroniaeth a safbwyntiau crefyddol, gan gynnwys credoau anghrefyddol. [fy mhwyslais i]

Roedd dileu hawl rhieni i dynnu eu plant allan o wersi yn rhan o'r **ymgyngoriad yn hydref 2019** ynghylch 'sicrhau mynediad i'r cwricwlwm llawn' i bawb (ochr yn ochr â'r cynigion ar gyfer Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb).

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi **canllawiau statudol i awdurdodau lleol ynghylch y meysydd llafur cytunedig** ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, o dan y pŵer cyffredinol i gyhoeddi canllawiau o dan adran 66.

Mae'r Bil (adran 62) hefyd yn gwneud darpariaeth benodol ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn achos disgyblion ym mlynnyddoedd 12 a 13 yn yr ysgol. Dim ond os byddant yn gofyn am y ddarpariaeth honno y'i darperir i ddisgyblion o'r fath.

### 5.3.c Meysydd llafur cytunedig a meysydd llafur enwadol, a'r disgwyliadau ar gyfer gwahanol fathau o ysgolion o dan y Bil

---

Mae adrannau 24, 31 a 32 o'r Bil yn golygu bod yn rhaid i addysgu elfen orfodol Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg (yn amodol ar eithriadau ar gyfer disgyblion sy'n iau na'r oedran ysgol gorfodol) fod yn unol ag Atodlen 1 y Bil. Mae Atodlen 1 yn

---

5 Ni fydd yn orfodol ar gyfer y disgyblion hynny nad ydynt yn cael eu haddysgu mewn ysgolion na'r rheini sydd mewn uned cyfeirio disgyblion. O ran plant sy'n iau na'r oedran ysgol gorfodol, nid oes rhaid darparu addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn unol â'r Bil.

nodi'r sefyllfa mewn perthynas â Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg ar gyfer **tri chategori gwahanol o ysgolion**.

Y prif wahaniaeth rhwng y categorïau gwahanol o ysgolion yw y bydd yn ofynnol i **ysgolion nad oes iddynt gymeriad crefyddol ddarparu Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg gan roi sylw i'r maes llafur cytunedig, tra bydd yn ofynnol i ysgolion â chymeriad crefyddol baratoi dau faes llafur**: maes llafur enwadol ac un sy'n rhoi sylw i'r maes llafur cytunedig. Rhoddir esboniad manylach isod.

### ***Ysgolion cymunedol ac ysgolion sefydledig a gwirfoddol heb gymeriad crefyddol***

Rhaid i ysgolion cymunedol gynllunio a gweithredu eu cwricwlwm i ddarparu ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg gan **roi sylw i'r maes llafur y cytunedig**. Y prif wahaniaeth o gymharu â'r trefniadau presennol yw cwmpas ehangach yr elfen Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, y bwriedir iddi fod yn fwy gwrthrychol, beirniadol a phlwrailaethol o gymharu ag addysg grefyddol. Fodd bynnag, gwahaniaeth arall yw ei bod hi'n ofynnol i ysgolion cymunedol roi sylw yn unig i'r maes llafur cytunedig o ran Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn eu cwricwla, tra ei bod hi'n ofynnol iddynt addysgu'n unol â'r maes llafur addysg grefyddol ar hyn o bryd.

### ***Ysgolion sefydledig ac ysgolion gwirfoddol a reolir sydd â chymeriad crefyddol***

Bydd gofyn i ysgolion gwirfoddol a reolir sydd â chymeriad crefyddol gynllunio eu cwricwlwm fel ei fod yn darparu ar gyfer **Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg enwadol a Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg gan roi sylw i'r maes llafur y cytunedig**. Y **drefn ddiodyn** ar gyfer yr ysgolion hyn fydd i ddysgwyr dderbyn addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg a gynlluniwyd gan roi sylw i'r **maes llafur cytunedig**.

Fodd bynnag, **rhaid darparu** Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn unol â gweithredoedd ymddiriedolaeth neu ddaliadau'r ffydd (h.y. **Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg enwadol**) **pan fydd rhiant yn gofyn am y ddarpariaeth honno**. Yn achos ysgolion gwirfoddol a reolir, bydd rhiant, i bob pwrpas, yn gallu optio plentyn allan o astudio Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg plwrailaethol.

Un gwahaniaeth o dan y Bil yw cwmpas ehangach y ffurf ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg sy'n rhoi sylw i'r maes llafur cytunedig, o'i gymharu ag addysg grefyddol. Gwahaniaeth arall yw os bydd rhiant yn gwneud cais am Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg enwadol, yn hytrach na Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg sy'n rhoi sylw

i'r maes llafur cytunedig, mae'n rhaid i ysgolion gwirfoddol a reolir ei ddarparu yn hytrach nag ystyried a ddylid ei ddarparu fel sy'n ofynnol ar hyn o bryd.

### **Ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir sydd â chymeriad crefyddol**

Bydd yn ofynnol i ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir sydd â chymeriad crefyddol gynllunio eu cwricwlwm fel ei fod yn **darparu Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg enwadol, a Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn unol â maes llafur cytunedig**. Y **drefn ddiodyn** ar gyfer yr ysgolion hyn fydd i ddysgwyr gael addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn unol â gweithredoedd ymddiriedolaeth neu ddaliadau ffydd yr ysgol (**Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg enwadol**).

Fodd bynnag, **os bydd rhiant yn gofyn am addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn unol â'r maes llafur cytunedig, rhaid ei darparu**. Mae'n bosibl, ac efallai'n debygol iawn, y bydd cyfran fawr o ddisgyblion yn derbyn Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg enwadol yn unig mewn ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir, er bod gofyn i'r ysgolion hyn hefyd gynllunio cwricwlwm sy'n blwraliaethol.

Un gwahaniaeth o dan y Bil yw cwmpas ehangach y ffurf ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg sy'n rhoi sylw i'r maes llafur cytunedig, o'i gymharu ag addysg grefyddol. Gwahaniaeth arall yw os bydd rhiant yn gwneud cais am Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg sy'n rhoi sylw i'r maes llafur cytunedig, yn hytrach na Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg enwadol, mae'n rhaid i ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ei ddarparu yn hytrach nag ystyried a ddylid ei ddarparu fel sy'n ofynnol ar hyn o bryd.

### 5.3.d Ymgynghoriad diweddar

---

Cynhaliodd Llywodraeth Cymru **ymgynghoriad** yn ddiweddar ar y darpariaethau ynghylch Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn y Bil. Roedd yr ymgynghoriad yn ystyried cwmpas Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, trefniadau ar gyfer Cyngorau Ymgynghori Sefydlog ar lefel awdurdodau lleol a Chynadleddau Meysydd Llafur Cytunedig, a disgwyliadau'r cwricwlwm ar gyfer gwahanol fathau o ysgolion.

Disgwylir ymgynghoriad pellach ar y canllawiau statudol y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu eu cyhoeddi ar gyfer awdurdodau lleol, Cyngorau Ymgynghori Sefydlog a Chynadleddau Meysydd Llafur Cytunedig ar ddatblygu meysydd llafur cytunedig ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg.

## 6. Cwricwla lleol, ar lefel ysgol, o fewn

---

## fframwaith cenedlaethol

Mae adran 10 y Bil yn ei gwneud yn ofynnol i **benathiaid unigol gynllunio cwricwlwm** ar gyfer eu hysgolion. Rhaid i'r cwricwlwm hwn, yn ychwanegol at gwmpasu'r pedwar diben, chwe Maes Dysgu a Phrofiad, tri sgil trawsgwricwlaidd a phedair elfen orfodol a amlinellir yn adrannau 4 a 5 y papur briffio hwn, gydymffurfio â'r gofynion a bennir yn adrannau 21 i 23 o'r Bil, sef:

- Rhaid i'r cwricwlwm ddarparu ar gyfer **cynnydd priodol**.
- Rhaid i'r cwricwlwm fod yn **addas** i ddisgyblion, neu blant, o **oedrannau, galluoedd a doniau gwahanol**.
- Rhaid i'r cwricwlwm fod yn **eang ac yn gytbwys**.

Rhaid i'r cwricwlwm mewn ysgolion uwchradd hefyd gynnig **dewis o addysgu a dysgu ym mhob Maes Dysgu a Phrofiad i ddisgyblion ym Mlwyddyn 10 ac 11** (adran 24), er bod yn rhaid iddynt ymgymryd ag o leiaf rywffaint o ddysgu ym mhob Maes Dysgu a Phrofiad. Mae hyn yn debyg i'r sefyllfa bresennol, lle mae disgyblion yn wynebu 'dewisiadau' ar ddiwedd Blwyddyn 9 ac yn gallu 'gollwng' rhai pynciau. Fodd bynnag, o dan y cwricwlwm newydd, ni fyddant yn gallu rhoi'r gorau i astudio Maes Dysgu a Phrofiad cyfan.

Bydd Gweinidogion Cymru yn gallu gwneud **Rheoliadau sy'n nodi gofynion pellach yn y cwricwlwm ar gyfer disgyblion ym Mlwyddyn 10 ac 11**. Gall hyn gynnwys darparu isafswm o gyrsiau astudio. (Ar hyn o bryd, mae'r **ddeddfwriaeth** yn ei gwneud yn ofynnol bod disgyblion yn cael dewis o blith 25 cwrs o leiaf yng Nghyfnod Allweddol 4, y mae'n rhaid i o leiaf dri ohonynt fod yn gyrsiau galwedigaethol.)

Rhaid i'r pennaeth a'r corff llywodraethu gyda'i gilydd fabwysiadu'r cwricwlwm y mae'r pennaeth wedi ei gynllunio a rhaid cyhoeddi crynodeb o'r cwricwlwm mabwysiedig. Rhaid iddynt ei adolygu'n barhaus ar y cyd a rhaid iddynt sicrhau ei fod yn cael ei weithredu mewn ffordd sy'n cadw at y gofynion statudol.

### 6.1. Lleoliadau meithrin a gyllidir ond nas cynhelir

Mae'r Bil yn gwneud darpariaethau ychydig yn wahanol ar gyfer lleoliadau meithrin a gyllidir ond nas cynhelir. I gydnabod gwahanol adnoddau lleoliadau o'r fath ar gyfer cynllunio eu cwricwlwm eu hunain, mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru ddatblygu a chyhoeddi cwricwlwm i'w ddefnyddio yn y lleoliadau hyn (adran 13). Yna mae gan lleoliadau y **dewis pa un ai i fabwysiadu**

**cwricwlwm Llywodraeth Cymru neu gynllunio a mabwysiadu eu cwricwlwm eu hunain**, ar yr amod ei fod yn cwrdd â'r gofynion cwricwlwm a nodwyd.

## 6.2. Eithriadau

Mae Pennod 4 (adrannau 39-50) y Bil yn darparu ar gyfer eithriadau i ofynion y cwricwlwm.

- O dan adran 40, caiff Gweinidogion Cymru roi cyfarwyddyd nad yw gofynion y cwricwlwm yn berthnasol i rai ysgolion, nac i ysgolion neu leoliadau meithrin nas cynhelir a ddisgrifir yn benodol, i hwyluso **gwaith datblygu neu arbrofion**.
- Mae adran 43 yn galluogi datgymhwyso gofynion y cwricwlwm ar gyfer disgyblion ag **Anghenion Dysgu Ychwanegol**, fel rhan o'r ddarpariaeth a roddwyd yn ei lle o dan **Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018**.
- Mae adran 44 yn darparu ar gyfer gwneud Rheoliadau a fydd yn galluogi penaethiaid a lleoliadau meithrin nas cynhelir i gymeradwyo gofynion y cwricwlwm mewn perthynas â disgyblion am **gyfnod dros dro**.

Ym mhob achos o'r fath, lle mae gofynion y cwricwlwm yn cael eu datgymhwyso, rhaid i unrhyw gwricwlwm a ddarperir barhau i fodloni'r gofynion, sef ei fod yn:

- a) galluogi pob disgybl i ddatblygu yn y ffyrdd a ddisgrifir yn y **pedwar diben**,
- (b) yn sicrhau dysgu ac addysgu sy'n cynnig **cynnydd priodol** i bob disgybl,
- (c) yn **addas** ar gyfer **oedran, gallu a doniau** pob disgybl,
- (d) yn ystyried unrhyw **anghenion dysgu ychwanegol** sydd gan bob disgybl, ac
- (e) yn sicrhau addysgu a dysgu **eang a chytbwys** i bob disgybl.

Mae'r Bil hefyd yn gwneud eithriadau i ofynion y cwricwlwm ar Unedau Cyfeirio Disgyblion a darpariaethau eraill addysg heblaw yn yr ysgol. Trafodir hyn yn adran 7 o'r papur briffio hwn.

## 7. Addysg heblaw yn yr ysgol

Mae Rhan 3 o'r Bil yn nodi'r gofynion cwricwlwm ar gyfer addysg a ddarperir o dan adran 19A o Ddeddf Addysg 1996 (Addysg heblaw yn yr ysgol, sef **yn bennaf mewn Unedau Cyfeirio Disgyblion**).

Yn 2018/19, roedd 2,286 o ddisgyblion yn cael addysg heblaw yn yr ysgol, sy'n cyfateb i **3.8 fesul 1,000 o ddisgyblion** (y gyfradd uchaf ers 2009/10, pan oedd yn 2.6 fesul 1,000). Ceir rhagor o wybodaeth am addysg heblaw yn yr ysgol ym **mhapur briffio Ymchwil y Senedd ym mis Tachwedd 2019**, a gyhoeddwyd cyn **ymchwiliad polisi'r** Pwyllgor.

Mae adran 52 o'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i'r cwricwlwm a ddarperir mewn Unedau Cyfeirio Disgyblion, fel yn adrannau 20-23 ar gyfer disgyblion mewn ysgolion yn gyffredinol, i:

- a) alluogi disgyblion i ddatblygu yn y ffyrdd a ddisgrifir yn y **pedwar diben**,
- b) darparu ar gyfer **cynnydd priodol** i ddisgyblion,
- c) bod yn **addas** i ddisgyblion o **oedrannau, galluoedd a doniau gwahanol**, a
- d) bod yn **eang ac yn gytbwys**, i'r graddau y mae'n briodol i ddisgyblion [mewn Unedau Cyfeirio Disgyblion].

Yn hytrach nag addysgu pob un o'r chwe Maes Dysgu a Phrofiad, mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i Unedau Cyfeirio Disgyblion gwmpasu'r Maes Dysgu a Phrofiad **lechyd a Llesiant** o fewn unrhyw gwricwlwm. Mae'n **rhaidd i'r cwricwlwm hefyd gwmpasu elfen orfodol Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb a'r tri sgil trawsgwricwlaidd**.

'Os yw'n rhesymol bosibl a phriodol gwneud hynny', rhaid i Unedau Cyfeirio Disgyblion hefyd ddysgu'r pum Maes Dysgu a Phrofiad arall a'r elfennau gorfodol eraill.

Mae'r Bil yn gosod gofynion tebyg ar fathau eraill o ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol.

## 8. Chweched dosbarth mewn ysgolion

Er mai 3-16 oed fydd ystod oedran y Cwricwlwm i Gymru, mae adran 61 o'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i ysgolion sicrhau bod y cwricwlwm ar gyfer disgyblion uwchlaw oedran ysgol gorfodol yn **'gwricwlwm cytbwys ac eang ei sail'** sy'n:

- a) hybu datblygiad ysbrydol, moesol, diwylliannol, meddyliol a chorfforol y disgyblion a'r gymdeithas, a
- b) paratoi'r disgyblion ar gyfer cyfleoedd, cyfrifoldebau a phrofiadau bywyd yn ddiweddarach.

Nid yw sefydliadau addysg bellach yn ddarostyngedig i'r gofyniad hwn.

Ar hyn o bryd mae addysg grefyddol yn orfodol i ddisgyblion chweched dosbarth yn yr ysgol. O dan y Bil, ni fydd Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn orfodol i ddisgyblion chweched dosbarth ysgolion, er y bydd yn rhaid ei **ddarparu i'r rheini sy'n gofyn am y ddarpariaeth honno.**

**Nid oes unrhyw ofyniad cyfatebol ar ysgolion i ddysgu Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb** i fyfyrwyr chweched dosbarth sy'n gofyn am y ddarpariaeth honno. Ar hyn o bryd nid yw addysg rhyw ac addysg bersonol a chymdeithasol (y mae Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn eu disodli) yn orfodol i ddisgyblion chweched dosbarth, yn wahanol i addysg grefyddol.

## 9. Cynnydd ac asesu

Bydd y Bil yn dileu'r dull cyfredol o wahanu addysg i gyfnodau allweddol: y Cyfnod Sylfaen, Cyfnod Allweddol 2, Cyfnod Allweddol 3 a Chyfnod Allweddol 4. Yn lle hynny, y bwriad yw y **bydd disgyblion yn symud ymlaen ar un continwrm dysgu**, yn unol â disgrifiadau ddysgu, camau cynnydd a deilliannau cyflawniad disgwylidig yn 5, 8, 11, 14 ac 16 oed.

Mae Adran 7 o'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i **Weinidogion Cymru gyhoeddi 'Cod Cynnydd'**, gan nodi sut bydd y cwricwllwm yn darparu ar gyfer cynnydd disgyblion a phlant. O dan adran 21, rhaid i'r cwricwllwm ddarparu ar gyfer cynnydd priodol a nodir yn adran 7(2) nad yw cwricwllwm yn darparu ar gyfer cynnydd priodol oni bai ei fod yn unol â'r Cod Cynnydd.

Cymharol ychydig o fanylion sydd wedi eu cynnwys ar wyneb y Bil ynghylch asesu. Mae adran 58 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud Rheoliadau ynghylch cynllunio, gweithredu, gwerthuso, adolygu a gwybodaeth a ddarperir sy'n gysylltiedig â threfniadau asesu. Gwneir **y Rheoliadau hyn o dan weithdrefn negyddol y Senedd** ar gyfer is-ddeddfwriaeth, yn hytrach na'r weithdrefn gadarnhaol<sup>6</sup>.

Mae adran 59 yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud Rheoliadau i roi cyfarwyddyd i bobl berthnasol i gymryd camau i hyrwyddo a chynnal dealltwriaeth o gynnydd.

---

<sup>6</sup> O dan y weithdrefn gadarnhaol, mae'n rhaid i'r Senedd gynnal pleidlais i gymeradwyo offeryn statudol. O dan y weithdrefn negyddol, daw offeryn statudol yn gyfraith yn awtomatig os na fydd y Senedd yn pleidleisio i'w ddirymu o fewn 40 diwrnod ar ôl iddo gael ei osod.

Mae **dogfennaeth y cwricwlwm a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2020** yn cynnig **tair prif rôl ar gyfer asesu** o dan y Cwricwlwm i Gymru:

- Cefnogi dysgwyr unigol yn barhaus o ddydd i ddydd
- Nodi, dal a myfyrio ar gynnydd dysgwyr unigol dros amser
- Deall cynnydd grwpiau er mwyn myfyrio ar arfer.

Nid yw'r dibenion asesu hyn wedi eu nodi ar wyneb y Bil ond mae'n debygol y cânt eu hadlewyrchu mewn Rheoliadau a wneir o dan adran 58. Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi **canllawiau asesu statudol ar wahân** ar gefnogi cynnydd dysgwyr yn ychwanegol at y canllawiau statudol troswaol a'r canllawiau statudol ar bob Maes Dysgu a Phrofiad (cyhoeddwyd fersiynau dros dro ohonynt ym mis Ionawr).

## 10. Pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth

Mae'r rhan hon o'r papur briffio yn rhoi crynodeb o'r pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth o dan y Bil a restrir mewn tabl ym Mhennod 5 o'r Memorandwm Esboniadol. Mae Atodiad A yn rhoi crynodeb o'r prif ddogfennau statudol y gellir eu cyhoeddi, neu y mae'n rhaid eu cyhoeddi, o dan y Bil.

### 10.1. Rheoliadau

Mae'r Bil yn rhoi **14 pŵer** i Weinidogion Cymru wneud Rheoliadau.

- Mae **2** o'r rhain i'w harfer o dan weithdrefn **gadarnhaol** y Senedd:
  - Diwygio elfennau gorfodol Meysydd Dysgu a Phrofiad neu sgiliau trawsgwricwlaidd;
  - Diwygio'r seiliau y gall penaethiaid benderfynu nad yw'r gofyniad i weithredu dewis disgybl Blwyddyn 10 neu 11 dros ddysgu ac addysgu yn berthnasol;
- Mae **12** i'w harfer o dan weithdrefn **negyddol** y Senedd (gan gynnwys Rheoliadau ynghylch trefniadau asesu).

### 10.2. Cyfarwyddiadau, penderfyniadau a chyhoeddi codau a chanllawiau

Mae'r Bil yn rhoi **7 pŵer** o'r fath i **Weinidogion Cymru**:

- **3** phŵer i gyhoeddi **codau** (Cod yr Hyn sy'n Bwysig, Cod Cynnydd a'r Cod



Cydberthynas a Rhywioldeb) pob un i'w gwneud o dan weithdrefn negyddol uwch y Senedd<sup>7</sup>;

- **2** bŵer i wneud **cyfarwyddiadau** (anghymeradwyo gofynion y cwricwlwm mewn rhai achosion a chymryd camau mewn perthynas â hyrwyddo a chynnal dealltwriaeth o gynnydd);
- **2** bŵer i gyhoeddi **canllawiau** (dyletswydd i gyhoeddi cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin a gyllidir ond nad cynhelir a phŵer cyffredinol i gyhoeddi canllawiau);

**Mae gan ysgolion a darparwyr meithrin a gyllidir ond nas cynhelir** 4 pŵer o'r fath.

- Mae gan benaethiaid a chyrrff llywodraethu bŵer ar y cyd i **benderfynu na ddylai'r gofyniad i addysgu'r elfen orfodol o Saesneg hyd at 7 oed fod yn gymwys**. Mae gan leoliadau meithrinfa a gyllidir ond nas cynhelir bŵer cyfatebol.
- Mae gan benaethiaid bŵer i **benderfynu nad yw'r gofyniad i weithredu dewis disgybl Blwyddyn 10 neu 11 ynghylch dysgu ac addysgu yn gymwys**. Mae gan gyrrff llywodraethu bŵer i gadarnhau penderfyniad y pennaeth neu roi cyfarwyddyd i'r pennaeth gymryd camau penodol.

## 11. Trafod dewisiadau eraill a goblygiadau ariannol

### 11.1. Dewisiadau a ystyriwyd

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol, sy'n rhan o'r **Memorandwm Esboniadol**, yn cyflwyno dau ddewis:

- Opsiwn 1: **Busnes fel arfer** – cadw'r darpariaethau presennol sy'n ymwneud â'r cwricwlwm ac asesu.
- Opsiwn 2: **Cyflwyno deddfwriaeth newydd** (gan gynnwys diwygio'r darpariaethau presennol) mewn perthynas â'r trefniadau o ran y cwricwlwm ac asesu a nodir yn '*Dyfodol Llwyddiannus*' (adolygiad yr Athro Donaldson).

Nid yw'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn trafod dewis amgen o ddiwygio, h.y. defnyddio'r adnoddau sydd eu hangen ar gyfer y Bil i gyflwyno mentrau gwella ysgolion nad ydynt yn ddibynnol ar gwricwlwm newydd.

<sup>7</sup> O dan y weithdrefn negyddol ddychafedig, mae'n rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori ar offeryn statudol drafft cyn iddo gael ei osod gerbron y Senedd.

## 11.2. Costau cyffredinol

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi'r costau sy'n gysylltiedig â rhoi'r Bil ar waith.

Nodir y bydd costau'r cyfnod arfarnu yn dod i gyfanswm o **rhwng £327.9 miliwn a £619.9 miliwn**. Mae'r amcangyfrif yn caniatáu ar gyfer cyfnod arfarnu deng mlynedd, **rhwng 2020-2021 a 2030-2031**. Mae'r costau yn lleihau i ddim yn ystod y cyfnod hwn. Felly, ystyrir bod yr holl gostau a nodir yn y Bil yn rhai trosiannol.

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi tri chategori o gostau ac yn priodoli'r costau hynny i dri math o sefydliad:

- **Costau gweinyddol - £175.4 miliwn: Llywodraeth Cymru** fydd yn talu'r costau hyn a byddant yn lleihau i ddim erbyn diwedd y cyfnod arfarnu. Mae'r gweithgareddau'n cynnwys cymorth ar gyfer dysgu proffesiynol, darparu adnoddau Cymraeg, cyllido rhwydweithiau cenedlaethol a rhanbarthol, a chostau uniongyrchol fel costau staff a chyfathrebu.
- **Costau cydymffurfio - Rhwng £146.0 miliwn a £438.0 miliwn:** Mae cyfran sylweddol o'r costau yn 'gostau cydymffurfio', sef y rheswm am yr ystod gyffredinol o ran costau. **Ysgolion** fydd yn talu'r costau hyn yn bennaf, gan ysgwyddo'r costau wrth gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth. Bydd gofyn i ysgolion gynllunio a gweithredu eu cwricwla newydd, a byddant yn ysgwyddo costau uniongyrchol ac anuniongyrchol drwy wneud hynny. Mae prif elfen y costau yn ymwneud â chostau cyfle o ran dysgu proffesiynol, a gyflwynir fel gwerth ariannol amser staff yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Disgwylir i'r costau hyn gael eu hysgwyddo rhwng 2021-22 a 2015-26.
- **Costau eraill - £6.5 miliwn:** Y rheoleiddiwr fydd yn talu'r costau hyn, sef **Cymwysterau Cymru**, ac maent yn ymwneud ag adolygu a diwygio cymwysterau galwedigaethol a chyffredinol mewn ymateb i ddiwygio'r cwricwlwm, gan gynnwys ymgynghori ar ddatblygu meini prawf cymwysterau, a chymeradwyo a monitro'r cymwysterau newydd. Disgwylir i'r costau hyn gael eu hysgwyddo rhwng 2021-22 a 2027-28.

### 11.2.a Costau suddedig

---

Mae nifer o gostau yn ymwneud â diwygio'r cwricwlwm a'r drefn asesu sydd naill ai wedi'u hysgwyddo eisoes neu y disgwylir iddynt gael eu hysgwyddo cyn i'r Bil gael Cydsyniad Brenhinol. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn rhoi gwybodaeth am y 'costau suddedig' hyn.

Nodir costau suddedig rhwng 2015-16 a 2020-21 o **dros £100 miliwn**. Roedd y rhan fwyaf o'r costau hyn yn gostau i Lywodraeth Cymru, a ysgwyddodd £89.1 miliwn (gan gynnwys gwariant dros dro o £21.1 miliwn yn 2020-21).

Mae'r costau suddedig ar gyfer sefydliadau eraill ar gyfer y cyfnod rhwng 2015-16 i 2020-21 yn cynnwys:

- Estyn - £4.4 miliwn
- Cymwysterau Cymru - £3.4 miliwn
- Gyrfaoedd Cymru - £86,000
- Y Consortia Rhanbarthol - £16.7 miliwn

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi y gallai fod costau suddedig nad ydynt wedi'u cynnwys yn y fersiwn a gyhoeddir wrth gyflwyno'r Bil. Mae'n nodi:

Byddwn yn rhoi gwybodaeth ychwanegol i'r Senedd yn ystod proses graffu Cam un am gostau suddedig sefydliadau eraill megis Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig, yr Eglwys yng Nghymru, darparwyr Addysg Gychwynnol Athrawon a Chymdeithas Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol Cymru (CCYSAGauC) cyn ymgorffori'r wybodaeth mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig ar ddiwedd Cam Dau. (paragraff 8.136)

### 11.2.b Costau nad ydynt wedi'u cyfrif ac effaith COVID-19

---

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hefyd yn nodi bod rhai costau nad ydynt wedi eu cynnwys neu gostau lle nad yw'r gwaith wedi'i wneud eto. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi y 'bu'n rhaid **dod â'r gwaith o ymgysylltu â nifer o randdeiliaid allweddol** fel CLILC, CCAC ac Estyn **i ben am ychydig wrth iddynt flaenoriaethu mewn ymateb i bandemig Covid-19**. '(tudalen 58). Felly nid yw Llywodraeth Cymru wedi gallu meintioli effaith y Bil ar y sefydliadau hynny ac nid yw'n cynnwys costau manwl yn hynny o beth (er bod rhywfaint o wybodaeth am gostau suddedig Estyn wedi'i chynnwys).

Mae Llywodraeth Cymru yn amlinellu yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ei bod yn bwriadu ymgysylltu â'r sefydliadau hynny 'pan fo'n briodol', ac y **bydd unrhyw wybodaeth ychwanegol yn cael ei rhannu â'r Senedd yn ystod gwaith craffu Cyfnod 1**, cyn cael ei ymgorffori mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig ar ddiwedd Cyfnod 2.

### 11.2.c Rhagdybiaethau allweddol

---

Amcangyfrifir y bydd rhwng 45 y cant a 71 y cant o gyfanswm y costau yn gostau i ysgolion. Mae Llywodraeth Cymru yn darparu gwybodaeth yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol am y fethodoleg a ddefnyddir i amcangyfrif y costau i ysgolion. Mae'n nodi bod **arolwg o Ysgolion Braenaru**<sup>8</sup> wedi llywio'r dadansoddiad o gostau yn y maes hwn. Fodd bynnag, dim ond 15 Ysgol Fraenaru sydd ar hyn o bryd (o blith tua 1,500 o ysgolion ledled Cymru) ac mae'r rhain yn ysgolion sydd wedi ymgysylltu â'r trefniadau newydd o ran y cwricwlwm ac asesu, ac sydd wedi cael cyllid ychwanegol oherwydd y statws hwn. Ar y sail hon, mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi (tudalen 59) nad yw'r Ysgolion Braenaru **yn cynrychioli ein holl ysgolion yn ehangach.**

Yn sgil yr ansicrwydd hwn, mae Llywodraeth Cymru wedi caniatáu **ystod +/-50 y cant o ran y costau a amcangyfrifwyd ar gyfer ysgolion.**

---

8 Dewisodd Llywodraeth Cymru 16 o **Ysgolion Braenaru**, i roi adborth ar hydriedd y broses o ddiwygio'r cwricwlwm a'r goblygiadau cysylltiedig. Mae pedair o bob rhanbarth consortia ac maent yn cynnwys ystod o ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig. Gadawodd un ysgol y rhaglen ddiwedd 2019.

## 11.2.d Crynodeb o'r costau

Mae'r tabl isod yn dangos yr ystod o gostau yn sgil Bil a amcangyfrifwyd gan Lywodraeth Cymru, wedi'u dadansoddi fesul sefydliad a blwyddyn.

**Tabl 1: Crynodeb o gostau – Y Bil Cwricwlwm ac Aseu**

Sefydliad	Amrediad	2021-22	2022-23	2023-24	2024-25	2025-26	2026-27	2027-28	2028-29	2029-30	2030-31	Total
Llywodraeth Cymru		25,607	25,607	25,232	25,007	24,982	9,982	9,740	9,740	9,740	9,740	175,377
<b>Cymwysterau Cymru</b>		<b>1,700</b>	<b>1,500</b>	<b>1,331</b>	<b>1,330</b>	<b>294</b>	<b>254</b>	<b>102</b>				<b>6,511</b>
Ysgolion – costau uniongyrchol	Uchel	19,180	15,330	4,890	2,370	1,850						43,620
	<b>Canolog</b>	<b>12,790</b>	<b>10,220</b>	<b>3,260</b>	<b>1,580</b>	<b>1,230</b>						<b>29,080</b>
	Isel	6,400	5,100	1,630	790	620						14,540
<b>Ysgolion – costau wedi'u neilltuo</b>	<b>Uchel</b>	<b>128,000</b>	<b>143,790</b>	<b>63,510</b>	<b>36,420</b>	<b>22,640</b>						<b>394,360</b>
	Canolog	85,340	95,860	42,340	24,280	15,100						262,920
	Isel	42,660	47,930	21,170	12,140	7,540						131,440
<b>Cyfanswm</b>	<b>Uchel</b>	<b>174,487</b>	<b>186,227</b>	<b>94,963</b>	<b>65,127</b>	<b>49,766</b>	<b>10,236</b>	<b>9,842</b>	<b>9,740</b>	<b>9,740</b>	<b>9,740</b>	<b>619,868</b>
	<b>Canolog</b>	<b>125,437</b>	<b>133,187</b>	<b>72,163</b>	<b>52,197</b>	<b>41,606</b>	<b>10,236</b>	<b>9,842</b>	<b>9,740</b>	<b>9,740</b>	<b>9,740</b>	<b>473,888</b>
	Isel	76,367	80,137	49,363	39,267	33,436	10,236	9,842	9,740	9,740	9,740	327,868

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru – **Asesiad Effaith Rheoleiddiol, y Bil Cwricwlwm ac Aseu (Cymru)**, para 8.377 (fel y'i cyflwynwyd ar 6 Gorffennaf 2020)

## 12. Asesiadau effaith

Mae Pennod 9 o'r Memorandwm Esboniadol/yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn cynnwys yr asesiadau effaith a gynhaliwyd ac yr adroddwyd arnynt gan Lywodraeth Cymru.

Mae'n cynnwys (ymysg asesiadau eraill) Asesiad Effaith Hawliau Plant, Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg ac Asesiad Effaith Cydraddoldeb. Mae hefyd yn rhoi crynodeb o'r ffordd y bydd y cwricwlwm newydd yn cyfrannu at y saith nod llesiant yn **Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015**.

## 13. Adolygiad ôl-weithredu

Ym Mhennod 11 o'r Memorandwm Esboniadol trafodir cynlluniau Llywodraeth Cymru i gynnal adolygiad ôl-weithredu. Dywed y Llywodraeth y bydd yn cychwyn '**asesiad gwerthuso**' ochr yn ochr â hynt y Bil drwy'r Senedd. Bydd hyn yn ceisio nodi sut gellir casglu a chyflwyno tystiolaeth o ansawdd uchel am weithredu ac effeithiau'r diwygiadau mewn ffordd ddibynadwy.

Dywed Llywodraeth Cymru y bydd yn llunio **cynllun gwerthuso** manwl yn dilyn yr asesiad gwerthuso. Bydd hefyd yn cynnal gwerthusiad economaidd, gan gynnwys adolygiad o'r costau a'r buddion a nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

Bydd yr asesiad gwerthuso wedi ei gwblhau erbyn haf 2021, bydd y cynllun gwerthuso yn cael ei gynnal yn 2021/22, a bydd **adolygiad ôl-weithredu o'r pum mlynedd gyntaf yn dilyn** Cydsyniad Brenhinol erbyn haf 2026.

Dywed Llywodraeth Cymru y bydd effaith tymor hwy'r ddeddfwriaeth yn cael ei dirnad ar sail y deilliannau i blant a phobl ifanc wrth iddynt symud ymlaen o'u haddysg i arholiadau, addysg bellach ac addysg uwch a hyfforddiant, a bywyd fel oedolion yn gyffredinol.

## 14. Gwaith craffu yn y Senedd

Cyhoeddodd y Gweinidog Addysg, Kirsty Williams AS, **ddatganiad ysgrifenedig** pan gyflwynwyd y Bil i'r Senedd ar 6 Gorffennaf 2020, ac fe roddodd ddatganiad yn y **Cyfarfod Llawn ar 8 Gorffennaf 2020**.

Mae pedwar cyfnod i broses y Senedd o graffu ar Ffiliau, ac mae rhagor o

---

wybodaeth am hyn yn y **Canllaw i'r Broses Ddeddfu**.

## 14.1. Cyfnod 1

Mae **Pwyllgor Busnes** y Senedd wedi cyfeirio'r Bil at y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, a phennu **4 Rhagfyr 2020** fel terfyn amser i gyflwyno adroddiad ar egwyddorion cyffredinol y Bil (proses graffu Cyfnod 1).

Cynhaliodd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg sesiwn graffu gychwynol gyda'r Gweinidog Addysg ynghylch y Bil ar **14 Gorffennaf 2020** a chynhaliodd ei sesiwn dystiolaeth lafar gyntaf gyda rhanddeiliaid ar **20 Gorffennaf 2020**. Cynhelir rhagor o sesiynau tystiolaeth ym mis Medi a mis Hydref. Mae'r Pwyllgor hefyd wedi lansio **cais cyffredinol am dystiolaeth ynglŷn â'r Bil, sy'n para tan 29 Medi 2020**.

Mae rhagor o wybodaeth am y broses graffu yng Nghyfnod 1 ar **dudalen y Bil ar y we**.

Mae'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad a'r Pwyllgor Cyllid yn ystyried y Bil ac yn craffu arno hefyd, a bydd y ddau Bwyllgor hyn yn llunio eu hadroddiadau priodol.

## 14.2. Cyfnod 2 a thu hwnt

Os bydd y Bil yn mynd rhagddo y tu hwnt i'r ddadl yng Nghyfnod 1 a bod yr Aelodau'n cefnogi'r egwyddorion cyffredinol, bydd yn destun gwelliannau yng Nghyfnod 2. Bydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn ystyried y gwelliannau hyn. Y dyddiad a bennwyd gan y Pwyllgor Busnes ar gyfer cwblhau Cyfnod 2 yw **5 Chwefror 2021**.

Yna, bydd y Bil yn destun diwygiadau pellach gan holl Aelodau'r Senedd yn y Cyfarfod Llawn (Cyfnod 3) cyn y bleidlais derfynol ynghylch pasio'r ddeddfwriaeth (Cyfnod 4). Os na fydd y Bil yn cwblhau ei hynt drwy'r Senedd cyn yr etholiad ym mis Mai 2021, bydd yn cwmpo.

## 15. Atodiad A: Dogfennau statudol allweddol a gyhoeddwyd o dan y Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru)

Mae'r tabl isod yn rhoi crynodeb o'r prif ddogfennau statudol y gellir eu cyhoeddi, neu y mae'n rhaid eu cyhoeddi, o dan y Bil.

Agwedd ar y Bil	Beth fydd yn cael ei gyhoeddi?	Gweithdrefn	Beth sydd eisoes ar gael?
<p><b>Yr Hyn sy'n Bwysig</b> ym mhob MDPH (adrannau 6, 72)</p>	<p>Rhaid i Weinidogion Cymru ddyroddi cod ("Cod yr Hyn sy'n Bwysig") sy'n nodi cysyniadau allweddol ar gyfer pob maes dysgu a phrofiad (MDPh).</p> <p>Bwriad hyn yw ffurfio rhan o'r 'dull cenedlaethol' a fydd, yn ôl y Gweinidog Addysg, yn sicrhau cysondeb i ddysgwyr</p>	<p>Rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori a gosod drafft gerbron y Senedd.</p> <p><b>(Gweithdrefn negyddol ddyrchafedig y Senedd)*</b></p>	<p>Gwnaeth Llywodraeth Cymru gynnwys datganiadau o'r hyn sy'n bwysig ym mhob MDPH, fel rhan o'r <b>Dogfennau Cwricwlwm i Gymru a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2020</b>.</p> <p>Roedd hyn yn dilyn sawl blwyddyn o waith datblygu ac <b>ymarfer adborth</b> yng ngwanwyn 2019.</p> <p>Mae gan bob un o'r chwe MDPH rhwng tri a chwe datganiad o'r hyn sy'n bwysig (cyfanswm o 27). Mae rhestr yn Atodiad B.</p> <p>Disgwylir y bydd y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig yn sail i God yr Hyn sy'n Bwysig</p>



Agwedd ar y Bil	Beth fydd yn cael ei gyhoeddi?	Gweithdrefn	Beth sydd eisoes ar gael?
<p><b>Cynnydd</b> ar hyd y continwwm dysgu (adrannau 7, 72)</p>	<p>Rhaid i Weinidogion Rhaid i Weinidogion Cymru ddyroddi cod (y "<b>Cod Cynnydd</b>") sy'n nodi'r ffordd y mae cwricwlwm i wneud darpariaeth ar gyfer cynnydd gan ddisgyblion a phlant.</p>	<p>Rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori a gosod drafft gerbron y Senedd.</p> <p><b>(Gweithdrefn negyddol ddyrchafedig y Senedd)*</b></p>	<p>Roedd Llywodraeth Cymru wedi datgan yn flaenorol ei bwriad i ddilyn argymhellion yn adolygiad yr Athro Donaldson, Dyfodol Liwyddiannus (2015) drwy gael un continwwm dysgu yn lle'r ffordd bresennol o rannu'r cwricwlwm yn Gyfnod Sylfaen a Chamau Allweddol 2, 3 a 4. Bydd 'camau cynnydd' ar hyd y continwwm hwn ar gyfer dysgwyr 5, 8, 11, 14 ac 16 oed lle bydd 'disgrifiadau dysgu' (cyfeiriwyd atynt hefyd fel 'canlyniadau cyflawniad').</p> <p>Mae'r <b>Dogfennau Cwricwlwm i Gymru a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2020</b> yn cynnwys y disgrifiadau dysgu hyn ar bob cam cynnydd ym mhob MDP. Mae'r dogfennau hefyd yn disgrifio sut y bydd pump 'egwyddor cynnydd' generig yn cael eu cymhwyso i bob MDP.</p> <p>Disgwylir y bydd yr egwyddorion cynnydd hyn a'r cysyniadau o gamau cynnydd a disgrifiadau dysgu yn sail i'r Cod Cynnydd</p>

Agwedd ar y Bil	Beth fydd yn cael ei gyhoeddi?	Gweithdrefn	Beth sydd eisoes ar gael?
<p><b>Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (ACRh)</b> (adrannau 8, 72)</p>	<p>Rhaid i Weinidogion Cymru ddyroddi cod (y "<b>Cod ACRh</b>") sy'n nodi themâu a materion sydd i'w cwmpasu gan elfen fandadol Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb.</p>	<p>Rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori a gosod drafft gerbron y Senedd.</p> <p><b>(Gweithdrefn negyddol ddyrchafedig y Senedd)*</b></p>	<p>Ar hyn o bryd, mae addysg rhyw yn rhan orfodol o'r cwricwlwm sylfaenol mewn ysgolion uwchradd. Gall ysgolion cynradd ei dysgu ond nid yw'n ofynnol iddynt wneud hynny. Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi canllawiau anstatudol ar sut dylid dysgu addysg rhyw a chydberthynas.</p> <p>Yn dilyn adroddiad gan <b>Banel Arbenigol</b>, ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ym mis Chwefror 2019 ynghylch canllawiau statudol drafft ar ACRh. Hefyd, <b>ymgyngorodd yn hydref 2019 ar newid hawl rhieni i dynnu eu plant allan o addysg rhyw nad yw'n rhan o bwnc cwricwlwm cenedlaethol.</b></p> <p>Disgwylir y bydd y canllawiau drafft yn sail i'r Cod ACRh</p>

Agwedd ar y Bil	Beth fydd yn cael ei gyhoeddi?	Gweithdrefn	Beth sydd eisoes ar gael?
<p><b>Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg</b></p> <p>(adranau 24(3), 31(3)(b), 32(6)(b) 62, 66. Atodlen 1 ac Atodlen 2)</p>	<p>Gall Llywodraeth Cymru gyhoeddi <b>canllawiau statudol</b> ar unrhyw agwedd ar y cwricwlwm o dan adran 66. Mae'r Bil yn diwygio adran 375 o Ddeddf Addysg 1996 fel bod yn rhaid i'r maes llafur cytunedig y mae'n rhaid i awdurdod lleol ei fabwysiadu at ddefnydd ysgolion a gynhelir ganddynt fod yn un ar gyfer crefydd, gwerthoedd a moeseg (yn hytrach nag addysg grefyddol (AG) fel sy'n digwydd ar hyn o bryd). Mae'r diwygiad i Ddeddf 1996 yn cynnwys gofyniad i awdurdodau lleol roi sylw i ganllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru wrth ddatblygu a mabwysiadu eu meysydd llafur cytunedig.</p> <p>Mae Llywodraeth Cymru yn <b>bwriadu cyhoeddi canllawiau statudol i awdurdodau lleol ynghylch meysydd llafur cytunedig</b> ar gyfer crefydd, gwerthoedd a moeseg.</p>	<p>Rhaid i Lywodraeth Cymru <b>ymgynghori'r personau y mae'n meddwl eu bod yn briodol (os oes rhai) cyn dyroddi canllawiau</b> y mae'n rhaid i awdurdodau lleol roi sylw iddynt wrth ddatblygu a mabwysiadu eu meysydd llafur cytunedig ar gyfer crefydd, gwerthoedd a moeseg.</p>	<p>Penderfynodd Llywodraeth Cymru ym mis Ionawr ar yr enw 'Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg' i ddisodli addysg grefyddol (AG) yn dilyn <b>ymgynghoriad a gynhaliwyd yn hydref 2019</b>.</p> <p>Mae'r Memorandwm Esboniadol (paragraff 3.99) yn nodi:</p> <p>Mae'r canllawiau sy'n amlinellu'r fframwaith ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg eisoes wedi eu llunio ar y cyd â rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys cynrychiolwyr y Cyngorau Ymgynghorol Sefydlog sy'n bodoli eisoes a sefydliadau crefyddol.</p>

Agwedd ar y Bil	Beth fydd yn cael ei gyhoeddi?	Gweithdrefn	Beth sydd eisoes ar gael?
<p><b>Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg</b></p> <p>(adrannau 24(3), 31(3)(b), 32(6)(b) 62, 66. Atodlen 1 ac Atodlen 2)</p>			<p>Yn ddiweddar, bu Llywodraeth Cymru yn <b>ymgyngori</b> (5 Mai - 28 Gorffennaf 2020) ar gwmpas Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, trefniadau ar gyfer Cyngorau Ymgyngori Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG) ar lefel awdurdodau lleol a Chynadleddau Meysydd Llafur Cytunedig, a disgwyliadau cwricwlwm ar gyfer gwahanol fathau o ysgolion.</p> <p>Mae'r ymgyngoriad cyfredol yn ceisio barn am y darpariaethau yn y Bil ynghylch crefydd, gwerthoedd a moeseg ac nid yw'n nodi fframwaith drafft ar gyfer crefydd, gwerthoedd a moeseg na chanllawiau drafft ar feysydd llafur cytunedig. Disgwylir y bydd angen ymgyngori pellach ar y <b>canllawiau statudol ynghylch fframwaith drafft ar gyfer crefydd, gwerthoedd a moeseg</b></p>

Agwedd ar y Bil	Beth fydd yn cael ei gyhoeddi?	Gweithdrefn	Beth sydd eisoes ar gael?
<p><b>Canllawiau statudol (yn gyffredinol) (adran 66)</b></p>	<p>Caiff Gweinidogion Cymru ddyroddi canllawiau statudol mewn perthynas ag arfer swyddogaethau a roddir gan neu o dan y Bil. Mae'r Bil yn rhestru personau y mae'n rhaid iddynt roi sylw i'r canllawiau wrth arfer eu swyddogaethau, gan gynnwys penaethiaid a chyrrff llywodraethu.</p> <p>Mae'r pŵer hwn yn debygol o gael ei ddefnyddio i ddyroddi <b>canllawiau statudol y bwriedir iddynt fod yn sail i'r pedwar diben ac i ymhelaethu arnynt, y chwe MDPH a'r tri sgil trawsgwricwlaidd</b> (yn ychwanegol at God yr Hyn sy'n Bwysig), yn ogystal â chanllawiau ar asesu (ynghyd â'r Cod Cynnydd). Bwriad hyn yn y bôn yw ffurfio rhan o'r 'dull cenedlaethol' a fydd, yn ôl y Gweinidog, yn sicrhau cysondeb i ddysgwyr.</p>	<p>Rhaid i Lywodraeth Cymru <b>ymgyngori â'r personau sydd, yn ei barn hi, yn briodol (os oes rhai) cyn dyroddi canllawiau. Ni fydd canllawiau o dan adran 66 yn ddarostyngedig i unrhyw weithdrefn y Senedd.</b></p>	<p><b>Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Cwricwlwm i Gymru 2022 ym mis Ionawr 2020. Canllawiau statudol dros dro</b> yw'r rhain sy'n cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyflwyniad i ganllawiau Gwricwlwm i Gymru.</li> <li>• Canllaw ar gyfer deddfwriaeth – amlinelliad o'r ddeddfwriaeth arfaethedig.</li> <li>• Cynllunio eich cwricwlwm – canllaw cyffredinol ar ddatblygu cwricwlwm ar draws pob maes dysgu a phrofiad.</li> </ul> <p>Cyflwyniad i bob maes dysgu a phrofiad.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig – y 'syniadau mawrion' ac egwyddorion allweddol ymhob Maes.</li> <li>• Egwyddorion cynnydd – sut mae dysgwyr yn gwneud cynnydd ar hyd eu dysgu ar draws y cwricwlwm.</li> </ul>

<b>Agwedd ar y Bil</b>	<b>Beth fydd yn cael ei gyhoeddi?</b>	<b>Gweithdrefn</b>	<b>Beth sydd eisoes ar gael?</b>
<p><b>Canllawiau statudol (yn gyffredinol) (adran 66)</b></p>			<ul style="list-style-type: none"> <li>• Disgrifiadau dysgu – sut mae dysgwyr yn gwneud cynnydd o fewn pob datganiad o'r hyn sy'n bwysig.</li> <li>• Cynllunio eich cwricwlwm – egwyddorion ar gyfer pob Maes – mwy o arweiniad Maes-benodol ar ddatblygu cwricwlwm.</li> <li>• Cefnogi cynnydd dysgwyr – canllawiau asesu.</li> </ul> <p>Canllawiau dros dro yw'r rhain gan nad yw'n bosibl iddynt fod â grym statudol cyn i'r Bil dderbyn Cydsyniad Brenhinol. Fodd bynnag, ni ddylid eu hystyried yn ganllawiau 'drafft' gan fod Llywodraeth Cymru wedi eu cyhoeddi fel fersiwn derfynol y Cwricwlwm i Gymru, ond yn ddarostyngedig i'r Bil gael ei basio. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gwricwlwm drafft ar gyfer adborth ym mis Mai 2019</p>

<b>Agwedd ar y Bil</b>	<b>Beth fydd yn cael ei gyhoeddi?</b>	<b>Gweithdrefn</b>	<b>Beth sydd eisoes ar gael?</b>
<p><b>Canllawiau statudol (yn gyffredinol) (adran 66)</b></p>			<p>Canllawiau dros dro yw'r rhain gan nad yw'n bosibl iddynt fod â grym statudol cyn i'r Bil dderbyn Cydsyniad Brenhinol. Fodd bynnag, ni ddylid eu hystyried yn ganllawiau 'drafft' gan fod Llywodraeth Cymru wedi eu cyhoeddi fel fersiwn derfynol y Cwricwlwm i Gymru, ond yn ddarostyngedig i'r Bil gael ei basio. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gwricwlwm drafft ar gyfer adborth ym mis Mai 2019</p>
<p>* O dan y weithdrefn negyddol ddylrchafedig, mae'n rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori a gosod drafft gerbron y Senedd am gyfnod nad yw'n llai na 40 diwrnod. Os bydd y Senedd yn penderfynu peidio â chymeradwyo'r Cod, ni ellir ei ddyroddi. Os na wneir penderfyniad, rhaid i Weinidogion Cymru ddyroddi'r Cod ar ffurf y drafft.</p>			

## 16. Atodiad B: Rhestr o ddatganiadau 'Yr Hyn sy'n Bwysig' ym mhob Maes Dysgu a Phrofiad)

Mae'r rhestr isod fel y'i cyhoeddwyd fel rhan o **ddogfennau'r Cwricwlwm i Gymru** ym mis Ionawr 2020. Nid ydynt wedi eu cynnwys ar wyneb y Bil a bydd y fersiynau terfynol yn cyd-fynd â'r hyn a nodir yng Nghod yr Hyn sy'n Bwysig y mae'n rhaid i Weinidogion Cymru ei gyhoeddi o dan adran 6 o'r Bil.

### **Y Celfyddydau Mynegiannol** (tri datganiad 'Yr Hyn sy'n Bwysig')

- Mae archwilio'r celfyddydau mynegiannol yn hanfodol er mwyn dyfnhau sgiliau a gwybodaeth gelfyddydol, ac mae'n galluogi dysgwyr i ddod yn unigolion chwilfrydig a chreadigol.
- Mae ymateb a myfyrio, fel artist ac fel cynulleidfa, yn rhan sylfaenol o ddysgu yn y celfyddydau mynegiannol.
- Mae creu yn cyfuno sgiliau a gwybodaeth, gan dynnu ar y synhwyrau, ysbrydoliaeth a'r dychymyg.

### **Iechyd a Lles** (pum datganiad 'Yr Hyn sy'n Bwysig')

- Mae datblygu iechyd a lles y corff yn arwain at fuddiannau gydol oes.
- Mae'r ffordd rydym yn prosesu ein profiadau ac yn ymateb iddyn nhw yn effeithio ar ein hiechyd meddwl a'n lles emosiynol.
- Mae'r ffordd rydym yn gwneud penderfyniadau yn effeithio ar ansawdd ein bywydau ni a bywydau eraill.
- Mae'r ffordd rydym yn ymwneud â dylanwadau cymdeithasol yn siapio pwy ydyn ni, ac yn effeithio ar ein hiechyd a'n lles.
- Mae cydberthnasau iach yn hanfodol ar gyfer ein lles.

### **Y Dyniaethau** (pum datganiad 'Yr Hyn sy'n Bwysig')

- Mae ymholi, archwilio ac ymchwilio yn ysbrydoli chwilfrydedd am y byd, ei orffennol, ei bresennol a'i ddyfodol.
- Mae digwyddiadau a phrofiadau dynol yn gymhleth a chânt eu hamgyffred, eu dehongli a'u cynrychioli mewn gwahanol ffyrdd.
- Mae ein byd naturiol yn amrywiol a deinamig, wedi'i ddylanwadu gan brosesau



a gweithredoedd dynol.

- Mae cymdeithasau dynol yn gymhleth ac yn amrywiol, ac maen nhw'n cael eu llywio gan weithredoedd a chredoau pobl.
- Mae dinasyddion gwybodus, hunanymwybodol yn mynd i'r afael â'r heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu dynoliaeth, ac yn gallu cymryd camau ystyrlon ac egwyddorol.

**Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu** (pedwar datganiad 'Yr Hyn sy'n Bwysig')

- Mae ieithoedd yn ein cysylltu â'n gilydd.
- Mae deall ieithoedd yn allweddol i ddeall y byd o'n hamgylch.
- Mae mynegi ein hunain drwy ieithoedd yn allweddol i gyfathrebu.
- Mae llenyddiaeth yn tanio'r dychymyg ac yn ysbrydoli creadigrwydd.

**Mathemateg a Rhifedd** (pedwar datganiad 'Yr Hyn sy'n Bwysig')

- Defnyddir y system rif i gynrychioli a chymharu'r perthnasoedd rhwng rhifau a meintiau.
- Mae algebra yn defnyddio systemau symbolau i fynegi strwythur perthnasoedd mathemategol.
- Mae geometreg yn canolbwyntio ar berthnasoedd sy'n ymwneud â siâp, gofod a safle, ac mae mesur yn canolbwyntio ar feintioli ffenomena yn y byd ffisegol.
- Mae ystadegau yn cynrychioli data, mae tebygolrwydd yn modelu siawns, ac mae'r ddau yn cefnogi casgliadau a phenderfyniadau gwybodus.

**Gwyddoniaeth a Thechnoleg** (chwe datganiad 'Yr Hyn sy'n Bwysig')

- Mae bod yn chwilfrydig a chwilio am atebion yn hanfodol i ddeall a rhagfynegi ffenomenau.
- Mae meddylfryd dylunio a pheirianeg yn cynnig ffyrdd technegol a chreadigol i ddiwallu anghenion a dymuniadau cymdeithas.
- Mae'r byd o'n cwmpas yn llawn pethau byw sy'n dibynnu ar ei gilydd i oroesi.
- Mae mater, a'r ffordd y mae'n ymddwyn, yn diffinio ein bydysawd ac yn ffurfio ein bywydau.
- Mae grymoedd ac egni yn gosod sail i ddeall ein bydysawd.
- Mae cyfrifiaduraeth yn gosod sail i'n byd digidol.





